

Os gwnaethoch brynu pethau yn y Deyrnas Unedig rhwng 1992 a 2008, gallech gael taliad yn y dyfodol o hawliad ar y cyd gan ddefnyddwyr yn erbyn Mastercard

Hyd yn oed os na wnaethoch chi ddefnyddio Mastercard, gallech fod yn gymwys i gael taliad.

Oeddech chi'n byw yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016? Does dim angen i chi wneud dim, rydych chi wedi'ch cynnwys yn yr hawliad yn barod.

Oeddech chi'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016? Mae'n rhaid i chi gymryd camau nawr i gymryd rhan.

Hysbysiad cyfreithiol yw hwn sydd wedi cael ei gyhoeddi dan gyfarwyddyd y Tribiwnlys Apelau Cystadlu

- Mae'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu wedi penderfynu y gall hawliad gan ddefnyddwyr ar y cyd yn erbyn Mastercard fynd rhagddo ar ran defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig.
- Mae'r hawliad yn dibynnu ar ganfyddiad cyfreithiol y Comisiwn Ewropeaidd fod Mastercard wedi codi ffioedd anghyfreithlon ar drafodion a broseswyd drwy ei rwydwaith. Cafodd y ffioedd hyn eu talu gan fusnesau am dderbyn taliadau a wnaed gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd Mastercard. Derbyniwyd Mastercard a thalwyd y ffioedd hyn gan dros hanner miliwn o fusnesau yn y Deyrnas Unedig rhwng 1992 a 2008 (*gweler Cwestiwn 7*).
- Honnir, os oeddech chi, neu rywun rydych chi'n cynrychioli eu hystad (lle roedd y person yn fyw ar 6 Medi 2016 ond y bu farw ers hynny), **yn byw yn y Deyrnas Unedig (am dri mis yn olynol o leiaf) rhwng 1992 a 2008, yn 16 oed neu'n hŷn yn ystod y cyfnod hwn, ac wedi prynu nwyddau a gwasanaethau a oedd yn gwerthu yn y Deyrnas Unedig (at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â busnes)**, yna rydych chi (neu'r person ymadawedig) wedi talu prisiau uwch ac wedi colli allan o ganlyniad i ymddygiad anghyfreithlon Mastercard. Cyflwynir yr hawliad ar ran yr holl unigolion a ddefnyddiodd unrhyw ddull talu, gan gynnwys Mastercard, Visa, American Express, arian parod neu siec i brynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau a oedd yn gwerthu yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n ceisio iawndal am y colledion a wynebwyd.
- Does dim arian ar gael ar hyn o bryd a does dim sicrwydd y bydd arian ar gael yn y dyfodol. Mae Mastercard yn gwrthwynebu'r honiadau hyn, felly bydd angen eu profi yn y Tribiwnlys mewn gwrandawriad neu setliad y cytunir arno gyda Mastercard.
- Mae gennych chi hawliau cyfreithiol pwysig yng nghyswllt yr hawliad hwn. Gallai arfer yr hawliau hyn effeithio ar eich gallu i gael taliad yn y dyfodol (os enillir yr achos a bod arian ar gael). Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio'r hawliad, pwy sy'n rhan o'r hawliad, eich hawliau mewn perthynas â'r hawliad, sut i arfer yr hawliau hyn ac unrhyw ddyddiadau cau cysylltiedig. Darllenwch yr hysbysiad hwn yn ofalus oherwydd bydd goblygiadau cyfreithiol i'ch penderfyniadau am yr hawliad hwn. I ddarllen Gorchymyn Cyd-Achos llawn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu sy'n caniatáu i'r hawliad fynd rhagddo, ewch i www.MastercardConsumerClaim.co.uk.

EICH HAWLIAU A'CH OPSIYNAU CYFREITHIOL

<p>AROS YN YR HAWLIAD</p>	<p>Os oeddech chi, neu unrhyw un rydych chi'n cynrychioli ei ystad, yn byw yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016, does dim angen i chi wneud unrhyw beth ar hyn o bryd i fod yn gymwys i hawlio cyfran o'r arian a allai fod ar gael yn y dyfodol. Drwy wneud dim byd, rydych chi'n cytuno i fod wedi'ch rhwymo i'r dyfarniadau y gall y Tribiwnlys eu cyhoeddi ar yr achos hwn(er na all y dyfarniadau hyn gael effaith niweidiol arnoch chi).</p>
<p>OPTIO ALLAN</p>	<p>Os oeddech chi, neu unrhyw un rydych chi'n cynrychioli eu hystad, yn byw yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016, mae gennych chi hawl i "optio allan" neu ofyn i gael eich eithrio o'r hawliad erbyn 2 Mawrth 2023. Os byddwch yn optio allan, ni fyddwch yn gallu cael unrhyw arian o'r hawliad hwn (os daw arian ar gael), ac ni fyddwch yn gallu gwneud hawliad unigol yn erbyn Mastercard oherwydd mae'r cyfnod ar gyfer gwneud hynny wedi dod i ben. Os ydych chi'n dymuno optio allan, gallwch wneud hynny drwy lenwi ffurflen optio allan a'i phostio i'r cyfeiriad isod, neu wneud hynny ar-lein drwy fynd i www.MastercardConsumerClaim.co.uk.</p>
<p>OPTIO I MEWN</p>	<p>Os oeddech chi, neu unrhyw berson rydych chi'n cynrychioli ei ystad, yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016 am dri mis o leiaf rhwng 1992 a 2008, eich bod wedi prynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau sy'n gwerthu yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod hwnnw, a'ch bod yn 16 oed neu'n hŷn yn ystod y cyfnod hwnnw, NID ydych chi (nac ystad unrhyw berson ymadawedig) wedi'ch cynnwys yn awtomatig yn yr hawliad ac mae angen cymryd camau os ydych chi am gael eich cynnwys. Gelwir y broses hon yn "optio i mewn". Llenwch Ffurflen Optio i Mewn drwy fynd i www.MastercardConsumerClaim.co.uk. Y dyddiad cau ar gyfer optio i mewn yw 2 Mawrth 2023.</p>

GWYBODAETH GYFFREDINOL

1. Pam mae'r hysbysiad hwn wedi cael ei gyflwyno?

Mae'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu wedi gofyn bod yr hysbysiad hwn yn cael ei gyflwyno yn dilyn Gorchymyn Cyd-Achos a wnaed ar 18 Mai 2022. Mae'r Gorchymyn yn caniatáu i'r hawliad hwn fynd rhagddo fel hawliad ar y cyd ar ran ddefnyddwyr cymwys yn y Deyrnas Unedig. I ddarllen y Gorchymyn yn llawn, ewch i www.MastercardConsumerClaim.co.uk.

Mae'r hysbysiad hwn wedi cael ei gyhoeddi i roi gwybod i chi am hawliau cyfreithiol pwysig sydd gennych mewn perthynas â'r hawliad hwn. Gallai arfer yr hawliau hyn effeithio ar eich gallu i gael taliad yn y dyfodol (os bydd arian ar gael). Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio'r hawliad, pwy sy'n rhan o'r hawliad, eich hawliau mewn perthynas â'r hawliad, sut i arfer yr hawliau hyn ac unrhyw ddyddiadau cau cysylltiedig. Darllenwch yr hysbysiad hwn yn ofalus oherwydd bydd goblygiadau cyfreithiol i'ch penderfyniadau am yr hawliad hwn.

2. Yn erbyn pwy mae'r hawliad?

Mae'r hawliad hwn yn erbyn Mastercard Incorporated, Mastercard International Incorporated a Mastercard Europe S.P.R.L. Gyda'i gilydd, gelwir yr endidau hyn yn Mastercard.

3. Beth wnaeth Mastercard o'i le? Beth yw'r honiadau?

Ar 19 Rhagfyr 2007, penderfynodd y Comisiwn Ewropeaidd fod Mastercard wedi gosod ffioedd anghyfreithlon ar drafodion a broseswyd drwy ei rwydwaith. Talwyd y ffioedd anghyfreithlon hyn gan fusnesau a oedd yn derbyn cardiau Mastercard fel taliad am nwyddau a gwasanaethau. Dywedodd y Comisiwn hefyd fod defnyddwyr yn debygol o fod wedi talu prisiau uwch am nwyddau oherwydd bod busnesau wedi codi prisiau adwerthu o ganlyniad i ffioedd anghyfreithlon Mastercard. Collodd Mastercard ei apêl derfynol yn erbyn y penderfyniad hwn yn 2014.

Beth bynnag fo'r math o daliad a ddefnyddiwyd i brynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau a oedd yn gwerthu yn y Deyrnas Unedig (hynny yw, does dim angen i chi fod wedi talu gyda Mastercard, nac unrhyw fath arall o gerdyn credyd neu ddebyd), mae'r hawliad yn dweud bod unigolion wedi talu prisiau uwch a cholli allan o ganlyniad i ymddygiad anghyfreithlon Mastercard. Mae'r hawliad yn cynnwys pryniannau (heb fod at ddibenion busnes) a wnaed gan unigolion o fusnesau a oedd yn gwerthu yn y Deyrnas Unedig rhwng 22 Mai 1992 a 21 Mehefin 2008. Mae hefyd yn cynnwys pryniannau a wnaed gan aelodau o'r grŵp (*gweler* Cwestiwn 6 isod) hyd at 21 Mehefin 2010, lle honnir bod y prisiau wedi aros yn uwch er bod yr ymddygiad anghyfreithlon wedi dod i ben. Nid yw pryniannau a wnaed gan unigolion tra oeddent y tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi'u cynnwys yn yr hawliad.

Mae'r hawliad yn cynnwys materion pwysig sy'n gyffredin i holl aelodau'r grŵp, gan gynnwys:

1. I ba raddau y codwyd ffioedd uwch nag y dylent fod ar fusnesau am dderbyn cardiau credyd a debyd Mastercard oherwydd bod Mastercard wedi ymddwyn yn anghyfreithlon.
2. I ba raddau y codwyd prisiau adwerthu gan fusnesau drwy basio ffioedd gormodol ac anghyfreithlon Mastercard ymlaen i ddefnyddwyr (hynny yw, chi).

4. Pwy sydd wedi cyflwyno'r hawliad? Beth yw rôl cynrychiolydd yr achos?

Mae'r Tribiwnlys wedi awdurdodi Walter Merricks CBE i weinyddu fel cynrychiolydd yr achos ar gyfer yr hawliad hwn.

Fel cynrychiolydd yr achos, bydd Mr Merricks yn cynnal yr hawliad yn erbyn Mastercard ar ran

holl aelodau'r grŵp (oni bai am y rheini sy'n optio allan o'r achos grŵp). Bydd Mr Merricks yn rhoi cyfarwyddyd i'r cyfreithwyr a'r arbenigwyr, yn gwneud penderfyniadau ar driniaeth yr hawliad ac, yn benodol, yn penderfynu a ddylid cyflwyno unrhyw setliad y gallai Mastercard ei gynnig i'r Tribiwnlys i gael ei gymeradwyo.

Yn ystod yr achos, Mr Merricks fydd yn gyfrifol am gyfathrebu ag aelodau'r grŵp ac am gyhoeddi hysbysiadau ffurfiol, fel yr hysbysiad hwn. Bydd Mr Merricks yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf arm yr hawliad ar y wefan www.MastercardConsumerClaim.co.uk.

5. Pwy yw Walter Merricks CBE?

Mae Mr Merricks wedi cael gyrfa hir a nodedig yn amddiffyn buddiannau defnyddwyr ac yn dal cwmnïau ariannol mawr i gyfrif am eu hymddygiad. Mae Mr Merricks yn gyfreithiwr cymwys a bu'n Brif Ombwdsmon Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol am 10 mlynedd.

Fel y Prif Ombwdsmon, fe wnaeth Mr Merricks sicrhau bod defnyddwyr yn cael biliynau o bunnoedd o iawndal gan fanciau, cymdeithasau adeiladu, benthydwyr morgeisi, darparwyr cardiau credyd i gwsmeriaid, cwmnïau buddsoddi, cwmnïau yswiriant a sefydliadau ariannol eraill.

6. Beth yw'r grŵp?

Mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 yn caniatáu i hawliad ar y cyd gael ei gyflwyno ar ran grŵp o unigolion yr honnir eu bod wedi dioddef colled gyffredin. Gelwir yr holl unigolion hyn yn aelodau o'r grŵp ac, ar y cyd, nhw yw'r grŵp sy'n cael ei gynrychioli. O ganlyniad i Ddeddf 2015, does dim angen i grwpiau o ddefnyddwyr sydd wedi colli allan wneud hawliad unigol i gael iawndal am eu colled. Yn hytrach, gall yr holl ddefnyddwyr hyn gael iawndal drwy un hawliad ar y cyd a wneir ar eu rhan.

Yn yr achos hwn, mae'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu wedi penderfynu mai'r "grŵp" sy'n gallu hawlio yn erbyn Mastercard yw'r holl unigolion a oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig ar y dyddiad preswyllo, gan gynnwys ystadau'r rheini a fu farw yn dilyn hynny, ac sydd ar unrhyw bwynt rhwng 22 Mai 1992 a 21 Mehefin 2008 (at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â busnes): (1) wedi prynu gan fusnesau a oedd yn gwerthu yn y Deyrnas Unedig ac a oedd yn derbyn cardiau Mastercard; (2) wedi bod yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig am gyfnod di-dor o dri mis o leiaf; a (3) wedi bod yn 16 oed neu'n hŷn. Ar gyfer yr unigolion hynny a fu farw ers 6 Medi 2016, mae cynrychiolydd yr ystad wedi'i gynnwys yn y grŵp. Ar gyfer yr unigolion hynny a fu farw cyn 6 Medi 2016, yn anffodus, nid yw cynrychiolwyr eu hystadau wedi'u cynnwys yn y grŵp ac felly ni allant fod yn rhan o'r cyd-achos.

Gweler "Ydw i'n rhan o'r grŵp?" isod am fwy o wybodaeth.

7. Pa fusnesau oedd yn derbyn Mastercard?

Roedd nifer fawr iawn o fusnesau ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y rhan fwyaf o archfarchnadoedd, siopau'r stryd fawr, gorsafoedd petrol, a siopau mawr eraill, yn derbyn cardiau credyd a debyd Mastercard.

8. Beth yw trefn optio allan? Beth yw'r "dyddiad preswyllo"?

Mae'r hawliad hwn yn mynd rhagddo fel achos optio allan. Yn syml, os nad ydych chi'n optio allan, rydych chi i mewn. Mae'r broses hon yn golygu, os oeddech chi – neu'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad – yn byw yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016, sef y dyddiad preswyllo, a'ch bod yn bodloni diffiniad y grŵp, eich bod wedi'ch cynnwys yn y grŵp (a does dim angen i chi wneud unrhyw beth) oni bai eich bod yn gofyn am gael eich eithrio o'r grŵp. Mae gofyn am gael eich eithrio hefyd yn cael ei alw'n optio allan o'r grŵp.

Os nad oeddech chi – neu'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad – yn byw yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016, ond eich bod yn bodloni'r meini prawf i fod yn y grŵp a'ch bod am gymryd rhan yn yr hawliad hwn, rhaid i chi gymryd camau i ddweud eich bod chi – neu ystad y person rydych chi'n ei gynrychioli – yn dymuno cael eich cynnwys. Mae gofyn am gael eich cynnwys yn y grŵp hefyd yn cael ei alw'n optio i mewn. Mae angen i chi ystyried optio i mewn os oeddech chi – neu'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad – yn byw dramor ar 6 Medi 2016.

Mae holl aelodau'r grŵp sy'n aros yn y grŵp neu'n optio i mewn iddo, wedi'u rhwymo gan unrhyw ddyfarniad y Tribiwnlys Apelau Cystadlu (er na all y dyfarniadau hyn gael effaith niweidiol arnoch chi). Ni fydd aelodau o'r grŵp yn gallu dwyn hawliad unigol yn erbyn Mastercard gan godi'r un materion â'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr hawliad hwn, p'un a ydynt yn aros yn y grŵp neu'n optio allan, oherwydd mae'r cyfnod ar gyfer gwneud cais unigol wedi dod i ben.

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut i optio allan o'r grŵp neu optio i mewn iddo.

9. Faint o arian mae'r hawliad yn gofyn amdano?

Mae'r hawliad yn ceisio iawndal o oddeutu £16.7 biliwn. Mae'r swm hwn er mwyn digolledu aelodau o'r grŵp yn gyffredinol am dalu mwy nag y dylent fod wedi'i dalu am nwyddau a gwasanaethau oherwydd ymddygiad anghyfreithlon Mastercard rhwng 22 Mai 1992 a 21 Mehefin 2010.

10. Sut ydw i'n cael taliad?

Does dim arian ar gael ar hyn o bryd a does dim sicrwydd y bydd arian ar gael yn y dyfodol. Mae Mastercard yn gwrthwynebu'r honiadau. Bydd yn rhaid ennill yr achos yn y Tribiwnlys Apelau Cystadlu oni bai fod modd cytuno ar setliad gyda Mastercard cyn iddo gyrraedd dyfarniad. Gall y broses gymryd amser, felly byddwch yn amyneddgar. Os/pan fydd arian ar gael, bydd aelodau'r grŵp yn cael gwybod sut i gael taliad.

11. Beth yw'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu?

Mae'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn llys arbenigol yn Llundain sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac yn gwrandao anghydfodau fel hyn. Mae'r Tribiwnlys yn cyhoeddi ei Reolau a'i Ganllawiau, ynghyd â gwybodaeth am yr hyn mae'n ei wneud, ar ei wefan www.catribunal.org.uk. Mae modd gweld crynodeb o'r hawliad yn erbyn Mastercard ar wefan y Tribiwnlys yn www.catribunal.org.uk.

PWY SYDD YN Y GRŴP

12. Beth mae'n ei olygu i fod aelod o'r grŵp?

Os daw arian ar gael, bydd aelodau o'r grŵp yn gymwys i gael taliad. Bydd aelodau o'r grŵp hefyd wedi'u rhwymo'n gyfreithiol gan holl ddyfarniadau'r Tribiwnlys mewn perthynas â'r hawliad hwn (er na all dyfarniadau o'r fath gael effaith niweidiol ar aelodau o'r grŵp). P'un a fydd Mr Merricks yn ennill arian ar gyfer y grŵp ai peidio, ni fyddwch byth yn gallu gwneud cais yn erbyn Mastercard mewn perthynas â'r hawliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr achos hwn, nac ar eich rhan eich hun nac yn eich rhinwedd fel cynrychiolydd ystad person ymadawedig, oherwydd mae'r cyfnod ar gyfer cyflwyno hawliad o'r fath wedi dod i ben.

13. Ydw i'n rhan o'r grŵp?

Mae'r grŵp yn cynnwys unigolion a oedd yn fyw ar 6 Medi 2016 ac sydd, ar unrhyw adeg rhwng 22 Mai 1992 a 21 Mehefin 2008:

- (1) wedi prynu gan fusnes a oedd yn gwerthu yn y Deyrnas Unedig ac a oedd yn derbyn cardiau Mastercard (at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â busnes);
- (2) wedi bod yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig am gyfnod di-dor o dri mis o leiaf; ac
- (3) wedi bod yn 16 oed neu'n hŷn.

Lle bo unigolyn wedi bodloni'r gofynion hynny a'i fod yn fyw ar 6 Medi 2016, ond ei fod wedi marw ers hynny, cynrychiolydd personol y person hwnnw (sef rhywun sydd wedi cael profiant neu lythyrau gweinyddu, neu ganiatâd yn achos ystadau yn yr Alban) yw'r aelod perthnasol o'r grŵp. Ar gyfer ystadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon nad oes cynrychiolydd personol wedi'i benodi ar eu cyfer, y person sydd wedi'i awdurdodi i gynrychioli ystadau o'r fath (er enghraifft, yr Ymddiriedolwr Cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, neu Farnwr yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon) yw'r aelod perthnasol o'r grŵp. Yn anffodus, does dim cynrychiolydd o'r fath yn yr Alban, ac felly ar gyfer ystadau yn yr Alban lle bo unigolion wedi marw ers 6 Medi 2016 heb gadarnhau ysgutor, mae'n rhaid cadarnhau ysgutor neu ysgutor derbyniol 2 Mawrth 2023 er mwyn i'w hystad barhau i fod yn rhan o'r grŵp. Ar gyfer ystadau yn yr Alban lle mae unigolion yn marw ar ôl 2 Mawrth 2023, gan gymryd y bydd yr achos yn cael ei ennill neu ei setlo, bydd rhaid cadarnhau ysgutor neu ysgutor derbyniol erbyn diwedd y cyfnod dosbarthu er mwyn hawlio cyfran o'r arian, pryd bynnag y bo hynny.

Lle bo unigolyn wedi bodloni'r gofynion hynny ac wedi marw cyn 6 Medi 2016, ni fydd cynrychiolwyr eu hystadau yn cael eu cynnwys yn y grŵp, yn anffodus.

14. Ydw i'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig?

Ar gyfer yr achos hwn, mae rhywun yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig os ydynt yn breswlydd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, a bod natur ac amgylchiadau eu preswylad yn dangos bod ganddynt gysylltiad sylweddol â'r Deyrnas Unedig.

Os yw unigolyn wedi byw yn y Deyrnas Unedig am dri mis o leiaf, a'i fod wedi bod yn 16 oed neu'n hŷn ar unrhyw adeg rhwng 22 Mai 1992 a 21 Mehefin 2008, mae'r person hwnnw'n gymwys i fod yn aelod o'r grŵp.

Mae unigolion a oedd yn byw yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016 wedi'u cynnwys yn awtomatig yn y grŵp oni bai eu bod yn gofyn am gael ei heithrio o'r grŵp (*Gweler* "Sut i Optio i Mewn neu Optio Allan," isod).

Fodd bynnag, os nad oedd unigolion yn byw yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016, mae'n rhaid cymryd camau i optio i mewn i'r rhan hon o'r hawliad er mwyn bod yn gymwys am daliad yn y dyfodol.

15. Beth os gwnes i symud o'r Deyrnas Unedig ar ôl 6 Medi 2016?

Os gwnaethoch chi – neu unrhyw un rydych chi'n cynrychioli ei ystad – symud o'r Deyrnas Unedig ar ôl 6 Medi 2016, dylech gadw dogfennau sy'n dangos tystiolaeth eich bod yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016. Os bydd arian ar gael yn y dyfodol, efallai y bydd angen i chi ddangos eich bod yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016 er mwyn cael eich taliad.

16. A yw busnesau wedi'u cynnwys yn y grŵp?

Dim ond unigolion all fod yn rhan o'r hawliad hwn. Nid yw'r grŵp yn cynnwys busnesau nac endidau eraill sydd wedi prynu gan fusnesau a oedd yn derbyn Mastercard. Os ydych chi'n cynrychioli busnes neu endid arall, efallai fod gennych chi hawliad yn erbyn Mastercard sydd ar

wahân i'r cyd-achos hwn, ac efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor cyfreithiol ynghylch unrhyw achos posibl a allai fod gennych.

17. Dydw i ddim yn siŵr a ydw i wedi fy nghynnwys yn y grŵp ai peidio.

Os nad ydych chi'n siŵr a ydych chi wedi'ch cynnwys yn y grŵp, ewch i www.MastercardConsumerClaim.co.uk i weld y Gorchymyn, y Cwestiynau Cyffredin a dogfennau eraill a allai eich helpu i bennu a ydych chi'n rhan o'r grŵp.

SUT I OPTIOALLAN NEU OPTIO IMEWN

18. Roeddwn i'n breswlydd yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016ac rwy'n dymuno dod allan o'r grŵp.

Os oeddech chi – neu'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad – yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016 a'ch bod yn dymuno dod allan o'r grŵp, gallwch optio allan drwy lenwi'r ffurflen Optio Allan sydd ar gael ar wefan yr hawliad yn www.MastercardConsumerClaim.co.uk neu drwy anfon llythyr i:

Mastercard Consumer Claim Opt-Outs
PO Box 1435
SUNDERLAND
SR5 9UD

Os ydych chi'n optio allan drwy lythyr, a fydddech cystal â chynnwys y datganiad canlynol yn eich llythyr “**Hoffwn optio allan o'r hawliad ar y cyd yn erbyn Mastercard, Rhif Achos 0000/0/0/16,**” ynghyd â'ch enw llawn, eich mis a'ch blwyddyn geni, eich cyfnod preswlyio (y blynyddoedd y buoch yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig rhwng 1992 a 2010), eich cyfeiriad post, eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn. Cofiwch lofnodi a dyddio eich llythyr optio allan. Os ydych chi'n optio allan ar ran ystad rhywun a fu farw, dylech gynnwys eich enw chi ac enw'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad, a nodi ym mha rinwedd rydych chi'n gweithredu fel cynrychiolydd ystad y person hwnnw. Does dim rhaid i chi roi rheswm dros optio allan.

I'ch helpu i gyflwyno cais i optio allan, mae sampl o lythyr optio allan ar gael yn www.MastercardConsumerClaim.co.uk. Os hoffech chi gael amlen barod â stamp arni er mwyn cyflwyno eich llythyr optio allan, anfonwch e-bost gyda'ch cyfeiriad post at SAE@MastercardConsumerClaim.co.uk.

Er mwyn i'r cais optio allan gael ei ystyried, rhaid iddo gael ei dderbyn neu gael marc post arno erbyn **2 Mawrth2023**. Pan fydd y cais i optio allan wedi'i dderbyn a'i brosesu, byddwn yn anfon cadarnhad atoch drwy e-bost os ydych chi wedi darparu cyfeiriad e-bost, neu drwy'r post fel arall.

YSTYRIAETH BWYSIG: Drwy optio allan, ni fyddwch yn gallu cael taliad o'r hawliad hwn os daw arian ar gael. Byddwch hefyd yn cael eich gwahardd rhag cyflwyno eich hawliad ar wahân eich hun yn erbyn Mastercard ynghylch yr un materion, oherwydd mae'r cyfnod hwnnw wedi dod i ben.

19. NID oeddwn yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016ond rwy'n dymuno bod yn rhan o'r grŵp.

Os nad oeddech chi – neu'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad – yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016 (hyd yn oed os oeddech chi o'r blaen), mae angen cymryd camau i optio i mewn i'r grŵp er mwyn bod yn rhan o'r hawliad a bod yn gymwys i gael taliad yn y dyfodol.

Ewch i www.MastercardConsumerClaim.co.uk a llenwi'r Ffurflen Optio i Mewn ar y wefan. Ar y ffurflen, bydd gofyn i chi ddarparu eich enw llawn, eich mis a'ch blwyddyn geni, eich cyfeiriad post, eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn. Hefyd, bydd gofyn i chi ddarparu'r dyddiadau rhwng 22 Mai 1992 a 21 Mehefin 2010 lle roeddech yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig. Os ydych chi'n optio i mewn ar ran ystad rhywun a fu farw, dylech gynnwys eich enw chi ac enw'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad, a nodi ym mha rinwedd rydych chi'n gweithredu fel cynrychiolydd ystad y person hwnnw.

Gallwch hefyd optio i mewn drwy'r post, os byddai hynny'n well gennych chi. Anfonwch lythyr gyda'r wybodaeth a restrir yn y paragraff blaenorol. I'ch helpu i gyflwyno eich cais i optio i mewn drwy'r post, mae sampl o lythyr optio i mewn ar gael yn www.MastercardConsumerClaim.co.uk. Os hoffech chi gael amlen barod â stamp arni ("SAE") er mwyn cyflwyno eich llythyr optio i mewn, anfonwch e-bost gyda'ch cyfeiriad post at SAE@MastercardConsumerClaim.co.uk.

Anfonwch eich llythyr optio i mewn i:

Mastercard Consumer Claim Opt-Ins
PO Box 1435
SUNDERLAND
SR5 9UD

Er mwyn i'r cais optio i mewn gael ei ystyried, rhaid iddo gael ei dderbyn neu gael marc post arno erbyn **2 Mawrth 2023**. Pan fydd y cais i optio i mewn wedi'i dderbyn a'i brosesu, byddwn yn anfon cadarnhad atoch drwy e-bost os ydych chi wedi darparu cyfeiriad e-bost, neu drwy'r post fel arall.

YSTYRIAETH BWYSIG: Sylwch, os byddwch yn penderfynu peidio ag optio i mewn, ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich hawliad eich hun yn erbyn Mastercard oherwydd mae'r cyfnod ar gyfer gwneud hynny wedi dod i ben.

20. Os NAD oeddwn yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016 ac nad ydw i'n optio i mewn erbyn 2 Mawrth 2023, ydw i'n gallu cael taliad?

O dan reolau'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu os nad oeddech chi – neu'r person rydych chi'n cynrychioli ei ystad – yn breswlydd yn y Deyrnas Unedig ar 6 Medi 2016, rhaid cyflwyno cais i optio i mewn erbyn **2 Mawrth 2023** (*gweler* y cwestiwn blaenorol) i fod yn rhan o'r grŵp. Os na fyddwch yn optio i mewn erbyn **2 Mawrth 2023** a bod arian yn dod ar gael yn nes ymlaen, yr unig ffordd y gallwch fod yn gymwys i gael taliad yw os bydd y Tribiwnlys Apelau Cystadlu yn rhoi caniatâd i chi optio i mewn yn hwyrach. Does dim sicrwydd y bydd y caniatâd hwn yn cael ei roi, felly mae'n rhaid i chi optio i mewn erbyn **2 Mawrth 2023** os ydych chi am fod yn sicr eich bod yn gymwys i gael taliad.

CAEL MWY O WYBODAETH

21. Sut ydw i'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr hawliad?

Gallwch fynd i www.MastercardConsumerClaim.co.uk a chofrestru i gael diweddariadau ac unrhyw hysbysadau yn y dyfodol drwy e-bost a/neu neges destun wrth i'r hawliad fynd rhagddo. Os/pan fydd arian ar gael, byddwn yn cysylltu â chi gyda gwybodaeth am sut i hawlio.

22. Sut mae cael rhagor o wybodaeth?

Mae'r hysbysiad hwn yn crynhoi'r Gorchymyn. I ddarllen y Gorchymyn yn llawn ac i weld gwybodaeth arall am yr hawliad, ewch i www.MastercardConsumerClaim.co.uk.